# THEATR CYMRU

## Swydd: Cydlynydd Cyfranogi

Pecyn Recriwtio Swydd







## Annwyl ymgeisydd

Diolch am eich diddordeb yn swydd y Cydlynydd Cyfranogi dros gyfnod mamolaeth. Dyma gyfle cyffrous i ymuno â'r cwmni am gyfnod o flwyddyn o fis Medi 2025.

Mae gwaith cyfranogi yn elfen hollbwysig o waith y cwmni ac ry'n ni'n falch iawn o'r ystod eang o gyfleoedd rydyn ni'n eu cynnig i bobl ymwneud â'r celfyddydau, a sut mae'r cyfleoedd hynny'n plethu gydag elfennau a sectorau eraill yn ein cymdeithas megis addysg, ac iechyd a lles.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae ein gweithgaredd cyfranogi wedi cynnwys:

- Gweithdai i ysgolion cynradd ac uwchradd yn gysylltiedig â chynyrchiadau'r cwmni, megis *Swyn* a *Dawns y Ceirw* ac *Ie, Ie, Ie*.
- Rhaglen o waith datblygu cynulleidfa i gefnogi cynyrchiadau, sy'n cynnwys hwyluso sgyrsiau cyn neu wedi sioe mewn canolfannau, a chydweithio gyda phartneriaid allweddol.
- Rhaglen o waith i gefnogi'r rhai sy'n dysgu Cymraeg a siaradwyr newydd, yn cynnwys gweithdai, sgyrsiau a chefnogi hwyluso Gwers Genedlaethol y Ganolfan Dysgu Cymraeg.
- Sefydlu grŵp o Ymgynghorwyr Ifanc sy'n ein cynghori ar ein gwaith cyfranogi, marchnata, datblygu creadigol a chynyrchiadau.
- Ar y Dibyn – gweithdai creadigol a sgyrsiau, ledled Cymru, wyneb yn wyneb ac ar-lein, i gefnogi rhai wedi'u heffeithio gan ddibyniaeth.
- Criw Creu – darparu cyfleoedd i bobl ifanc sydd ag anghenion addysgu ychwanegol a throseddwyr ifanc i gydweithio gydag artistiaid profiadol i greu gwaith creadigol.
- Gwaith gyda Theatr Ashtar – prosiect ar y cyd gyda Theatr Ashtar sy'n rhoi cyfle i gyfranogwyr ifanc o'r ddwy wlad i gymryd rhan mewn cyfres o weithdai, gyda'r bwriad o ddenu sylw i leisiau ieuenctid a meithrin dealltwriaeth rhyng-ddiwylliannol.
- Cydweithio gyda Chelfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru ar gynhyrchiad blynyddol y Theatr Ieuenctid.
- Cydweithio gyda'r Urdd i gefnogi gwaith Y Cwmni a darparu gweithdai cefn llwyfan.

Yn y rôl hon bydd cyfle i chi fod yn rhan o'r broses gynllunio ar gyfer rhaglen gyfranogi 2026 yn ogystal â chydlynu a chynnal y rhaglen o weithgareddau ar gyfer 2025. Mae cydweithio a chynnal cysylltiadau'n gwbl allweddol ac yn y rôl hon bydd cyfle i gydweithio gydag ystod eang o bartneriaid a chyfranogwyr, a chreu cysylltiadau newydd.

Ry'n ni'n gwybod pa mor bwerus mae'r celfyddydau'n gallu bod a sut maen nhw'n gallu newid bywydau pobl er gwell – ac mae hynny'n arbennig o wir am waith cyfranogi. Mae rhagor o wybodaeth am y swydd a'r cwmni i'w gweld yn y pecyn. Os oes unrhyw beth yr hoffech ei drafod ymhellach peidiwch ag oedi i gysylltu â ni.

*Angharad*

**Angharad Jones Leefe**
Cyfarwyddwr Gweithredol

# Y Cwmni



©Jorge Lizalde

Creu theatr Gymraeg fel man i ddod ynghyd, i gysylltu'r adnabyddus a'r annisgwyl, Cymreictod a'r byd, i drafod yn ddwys ac i godi'r galon.

Mae Theatr Cymru yn creu a chyflwyno cynyrchiadau theatr sy'n anelu at ddifyrru, cyffroi a swyno ein cynulleidfaoedd a thanio eu dychymyg. Rydym hefyd yn darparu cyfleoedd datblygu a fydd yn meithrin ac ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf o artistiaid theatr Cymraeg, ac yn cynnig cyfleoedd creadigol i bobl ledled Cymru brofi effaith drawsnewidiol y celfyddydau.

Fel cwmni cenedlaethol, ry'n ni'n ceisio dangos arweinyddiaeth o fewn y sector, meithrin a datblygu talent, gwneud y mwyaf o gyfleoedd partneriaeth a chydweithio, datblygu a chynyddu cysylltiadau rhyngwladol, a chyrraedd y cynulleidfaoedd mwyaf eang posibl.

Mae dros ugain mlynedd ers sefydlu'r cwmni yn 2003 ac mae'r cwmni wedi ymgartrefu yng Nghaerfyrddin ers 2008. Penodwyd Cyfarwyddwr Artistig newydd – Steffan Donnelly – yn 2022, ac mae e ac Angharad Jones Leefe, y Cyfarwyddwr Gweithredol, yn Brif Weithredwyr ar y cyd.

Mae gan y cwmni 15 o staff cyflogedig ar gyfartaledd ond mae'r nifer yn amrywio ychydig yn ddibynnol ar gytundebau tymor penodol. Mae creu amgylchedd gwaith cadarnhaol a chynhyrchiol yn bwysig iawn i ni fel cwmni, ac rydym yn darparu cefnogaeth i'n staff fel eu bod nhw'n teimlo eu bod yn gallu cyflawni eu gwaith hyd orau eu gallu. Rydym yn cynnig ystod o opsiynau gweithio hyblyg, yn cynnwys cynllun oriau hyblyg, gweithio rhan amser a gweithio o gartref. Mae lles ein staff yn holl bwysig i ni, ac felly mae ystod o fesurau mewnol wedi eu cyflwyno i ddiogelu staff a cheisio sicrhau cydbwysedd iach rhwng bywyd a gwaith.

Creu a llwyfannu cynyrchiadau theatr yw prif swmp gwaith y cwmni ac mae rhaglen flynyddol fel arfer yn cynnwys tua 4 cynhyrchiad, gyda dau o'r rheini yn teithio yn genedlaethol. Mae'r cynyrchiadau yn amrywio ond maent fel arfer yn rhai graddfa ganolig neu fach. Mae'r canolfannau ry'n ni'n ymweld â nhw'n rheolaidd yn cynnwys Theatr y Sherman yng Nghaerdydd, Ffwrnes yn Llanelli, Canolfan Celfyddydau Aberystwyth, Theatr Clwyd yn yr Wyddgrug, Galeri Caernarfon, a Pontio ym Mangor. Yn achlysurol, mae'r cwmni yn llwyfannu cynyrchiadau safle benodol, ac yn y gorffennol mae lleoliadau wedi cynnwys Castell Caerffili, Tomen y Mur ac Amgueddfa Sir Gâr yn Abergwili. Ry'n ni hefyd yn cyflwyno gwaith ar faes yr  Eisteddfod Genedlaethol yn flynyddol.

Yn y flwyddyn ddiwethaf mae'r cwmni wedi ei enwebu ar gyfer gwobr Cynhyrchydd y Flwyddyn gan The Stage, a gwobr Rhagoriaeth Mewn Teithio gan UK Theatre ar gyfer cynhyrchiad Parti Priodas. Enwyd cynhyrchiad Rhinoseros yn un o'r 50 drama orau yn 2023 gan The Stage ac fe ymddangosodd Angharad Jones Leefe a Steffan Donnelly, Cyd-Brif Weithredwyr y cwmni, ar restr The Stage 100.

Yn ogystal â chynyrchiadau, mae gan y cwmni raglen o weithgareddau sy'n cynnwys prosiectau ymchwil a datblygu artistig, a gweithgareddau cyfranogi, sy'n amrywio o weithdai i ysgolion, i brosiectau iechyd a lles.

Mae gweithwyr llawrydd yn rhan holl bwysig o ecoleg ein sector ac felly mae meithrin a chynnal perthynas effeithiol a chefnogol gyda gweithwyr llawrydd yn hanfodol i'n llwyddiant ni fel cwmni.  Ry'n ni hefyd yn gweithio gydag ystod o gwmnïau a sefydliadau eraill er mwyn cyflawni ein gwaith. Mae'r rhain yn cynnwys cwmnïau cynhyrchu eraill; canolfannau perfformio; Mentrau Iaith; Urdd Gobaith Cymru; Llenyddiaeth Cymru; S4C; y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol; yr Eisteddfod Genedlaethol; CBAC; ysgolion a phrifysgolion; byrddau iechyd ac awdurdodau lleol; a mwy.

Mae ffocws clir gan y cwmni ar gynyddu cynhwysiant ein gweithgareddau, ac mae hyn yn treiddio drwy holl waith y cwmni – o sicrhau profiad hygyrch i gynulleidfaoedd amrywiol i gynnig cyfleoedd gwaith a chyfranogi sy'n apelio at ystod amrywiol o bobl, gan sicrhau eu bod wedi eu hyrwyddo mewn dulliau tryloyw ac agored.



©Jorge Lizalde

# Manylion y swydd

# Manylion y swydd

**Teitl:**
Cydlynydd Cyfranogi dros gyfnod mamolaeth

**Cyflog:** £32,887 y flwyddyn

**Cyfnod:** 12 mis o'r 1af o Fedi 2025

**Oriau:** 37.5 awr yr wythnos
Rydym yn hapus i ystyried ceisiadau i weithio'n rhan amser.

**Yn adrodd i'r:** Cyfarwyddwr Cynhyrchu

**Lleoliad:** Mae pencadlys y cwmni yng Nghaerfyrddin, ond ry'n ni'n cynnig amrywiaeth o drefniadau gweithio hyblyg, yn cynnwys trefniant gweithio hybrid sy'n golygu cyfuniad o weithio yn y swyddfa a gweithio o gartref. Byddai'r union drefniant yn cael ei drafod a'i gytuno gyda'r ymgeisydd llwyddiannus.

**Hawl i Wyliau Blynyddol:** 25 diwrnod + gwyliau cyhoeddus + 2 ddiwrnod cwmni adeg y Nadolig







# Cyfrifoldebau allweddol:

- **Gwaith Cyfranogi:** Cynorthwyo'r Cyfarwyddwr Cynhyrchu i ddatblygu a gweithredu strategaeth gyfranogi'r cwmni
- **Datblygu cynulleidfaoedd a meithrin perthnasoedd:** Adnabod ffyrdd o ddatblygu cynulleidfaoedd i waith y cwmni, a chydweithio gyda phartneriaid i lunio a chynnal gweithgaredd cyfranogi
- **Casglu data, gwerthuso a chyfathrebu:** Casglu gwybodaeth i werthuso gweithgareddau cyfranogi'r cwmni, a chodi ymwybyddiaeth o'r gwaith drwy gyfathrebu'n allanol a rhannu negeseuon allweddol ac astudiaethau achos
- **Codi arian:** Cefnogi'r gwaith o weithredu strategaeth codi arian y cwmni
- **Cynhwysiant:** Cefnogi'r gwaith o sicrhau cynhwysiant, amrywiaeth a chynrychiolaeth ar draws rhaglen waith y cwmni, boed hynny'n artistiaid, themâu neu ymgyfranogwyr.

Ceir rhagor o wybodaeth am y tasgau'n ymwneud â'r cyfrifoldebau uchod yn y swydd-ddisgrifiad llawn ar ddiwedd y ddogfen hon. Byddwch yn gweithio'n agos gydag aelodau arall o'r tîm i sicrhau bod cysylltiad cryf rhwng y gweithgaredd cyfranogol a rhaglen artistig y cwmni. Byddwch hefyd yn gweithio gyda'r tîm marchnata er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r gweithgareddau cyfranogol yn allanol.







# Am beth rydyn ni'n chwilio?

## Rydyn ni'n awyddus i glywed gennych os ydych:

- yn mwynhau gweithio gydag ystod eang o grwpiau a chymunedau
- wedi cael profiad o gydlynu prosiect gyda grŵp cymunedol
- yn angerddol am ddarparu mynediad i bobl i weithgareddau celfyddydol
- wedi ymrwymo'n llwyr i wella cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant mewn modd ymarferol.

## Wrth wneud cais am y swydd hon, rydyn ni eisiau i chi ddangos eich bod:

- yn gallu trefnu a rheoli portffolio o weithgareddau
- yn gallu gweithio'n annibynnol ac ar y cyd fel rhan o dîm
- yn gallu cyfathrebu a gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg i safon uchel – ar lafar ac yn ysgrifenedig
- yn hyderus gyda thechnoleg gwybodaeth, yn ddelfrydol gyda Microsoft Office gan gynnwys Word, Excel a Teams
- yn dda am flaenoriaethu, rheoli llwyth gwaith a datrys problemau
- yn ymfalchïo yn eich gwaith ac yn mynd ati gydag agwedd gadarnhaol ac adeiladol

Byddai'n fanteisiol, ond nid yn angenrheidiol, os oes gennych brofiad o weithredu a gweinyddu prosiectau cyfranogol, ac ymwybyddiaeth dda o sector y celfyddydau Cymraeg.

Ceir rhagor o wybodaeth am y sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen ar gyfer y swydd yma yn y Manyleb Person ar ddiwedd y ddogfen hon.

# Dyletswyddau

## Gwaith Cyfranogi

**Cynorthwyo'r Cyfarwyddwr Cynhyrchu i ddatblygu a gweithredu strategaeth gyfranogi'r cwmni**

- Cynorthwyo'r Cyfarwyddwr Cynhyrchu i lunio rhaglen o waith cyfranogol sy'n cefnogi ac yn cyfateb i nodau strategol y cwmni, gyda'r nod o gyflawni'r targed ar gyfer nifer yr ymgyfranogwyr a nodir yng Nghynllun Busnes y cwmni.
- Gwneud gwaith ymchwil ar brosiectau cyfranogol newydd sy'n ymgysylltu gyda chyfranogwyr amrywiol mewn dulliau gwahanol.
- Chwarae rôl allweddol wrth sicrhau bod strategaeth a gweithgaredd cyfranogol y cwmni yn ymateb i anghenion a barn ein cyfranogwyr.
- Sicrhau gorolwg o waith cyfranogol o fewn cyd-destun Cymraeg ac yn ehangach.
- Sicrhau gwybodaeth gyfredol am arferion cyfranogol, gan rannu arferion da a gweithio oddi mewn i ganllawiau arferion da.
- Cynnal cyflwyniadau, sesiynau hyfforddi a gweithdai.
- Cynllunio, arwain a gweithredu prosiectau cyfranogol yn cynnwys amserlenni, cyllidebu a chytundebu, gyda chefnogaeth y Cyfarwyddwr Cynhyrchu.
- Adnabod rhwydwaith o artistiaid a hwyluswyr llawrydd i gefnogi rhaglen waith cyfranogol y cwmni, a rheoli'r berthynas waith gyda nhw lle bo hynny'n briodol.

## Datblygu cynulleidfaoedd a meithrin perthnasoedd

**Adnabod ffyrdd o ddatblygu cynulleidfaoedd i waith y cwmni, a chydweithio gyda phartneriaid i lunio a chynnal gweithgaredd cyfranogi**

- Cynnal a datblygu'r partneriaethau cydweithio presennol, a chwilio am bartneriaethau cydweithio newydd oddi mewn a thu allan i'r diwydiant theatr.
- Cydweithio â swyddogion cyfranogi canolfannau, pan yn berthnasol.

## Casglu Data, Gwerthuso a Chyfathrebu

**Casglu gwybodaeth i werthuso gweithgareddau cyfranogi'r cwmni, a chodi ymwybyddiaeth o'r gwaith drwy gyfathrebu'n allanol a rhannu negeseuon allweddol ac astudiaethau achos**

- Gwerthuso gweithgareddau cyfranogol i asesu cyrhaeddiad a chyflawni amcanion.
- Casglu a chyflwyno data a gwybodaeth am y gweithgareddau, yn cynnwys niferoedd yr ymgyfranogwyr.
- Cydlynu cyfarfodydd gwerthuso prosiectau a chyflwyno adroddiad gwerthuso ar gyfer pob gweithgaredd, gan sicrhau bod cyfleoedd i ddysgu yn cael eu nodi a'u cymhwyso i gynllunio a darparu gweithgareddau yn y dyfodol.
- Cydweithio gyda'r Adran Farchnata i godi proffil gweithgareddau'r Cwmni, yn cynnwys creu ffilmiau hyrwyddo ac astudiaethau achos.
- Cyfathrebu'n gyson gyda gweddill staff y cwmni ynghylch y gweithgareddau cyfranogol.

## Codi arian

**Cefnogi'r gwaith o weithredu strategaeth codi arian y cwmni**

- Archwilio a mewnbynnu i'r broses greadigol wrth ymgeisio am geisiadau grant.
- Adnabod ffynonellau incwm a phartneriaid ar gyfer y gwaith.

## Cynhwysiant

**Cefnogi'r gwaith o sicrhau cynhwysiant, amrywiaeth a chynrychiolaeth ar draws rhaglen waith y cwmni, boed hynny'n artistiaid, themâu neu ymgyfranogwyr.**

- Gweithredu polisïau a phrosesau recriwtio'r cwmni mewn perthynas â phrosiectau cyfranogol.
- Sicrhau bod unrhyw weithgareddau'n gynhwysol ac yn hygyrch.
- Ystyried amrywiaeth a chynrychiolaeth, ac anghenion gwahanol grwpiau a chymunedau, wrth lunio a threfnu gweithgareddau.

## Arall

- Mewn cydweithrediad â swyddogion eraill, gweithredu systemau gweinyddol a threfniadol y cwmni.
- Ymgymryd â dyletswyddau eraill rhesymol ar gais y Cyfarwyddwr Cynhyrchu.

# Manyleb Person

| | Hanfodol | Dymunol |
|---|---|---|
| **Profiad** | | |
| Profiad o weithredu a chydlynu prosiect gyda grwpiau cymunedol | ✔ | |
| Tystiolaeth o weithio gyda chymunedau | ✔ | |
| Profiad o weithredu a gweinyddu prosiectau cyfranogol | | ✔ |
| Profiad o weithio gyda grwpiau neu gymunedau sy'n anodd eu cyrraedd neu wedi eu tangynrychioli | | ✔ |
| **Gwybodaeth** | | |
| Ymwybyddiaeth dda o sector y celfyddydau Cymraeg | | ✔ |
| **Sgiliau** | | |
| Y gallu i drefnu a rheoli portffolio o weithgareddau | ✔ | |
| Y gallu i weithio'n annibynnol ac ar y cyd fel rhan o dîm | ✔ | |
| Y gallu i gyfathrebu a gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg | ✔ | |
| Yn hyderus gyda thechnoleg gwybodaeth, yn ddelfrydol gyda Microsoft Office gan gynnwys Word, Excel a Teams | ✔ | |
| Yn ymfalchïo yn eich gwaith ac yn mynd ati gydag agwedd gadarnhaol ac adeiladol | ✔ | |
| Yn barod i ddysgu ac yn agored i newid | ✔ | |
| Yn ymateb yn gadarnhaol i wahanol safbwyntiau | ✔ | |

# I wneud cais:

- Llenwch y ffurflen gais.

**NEU**

- Cyflwynwch fideo byr ohonoch chi'ch hun, gan ateb y cwestiynau a nodir ar y ffurflen gais.

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am y swydd, os oes angen unrhyw gymorth arnoch i gyflwyno cais, neu os hoffech gael fformat gwahanol, cysylltwch â ni'n uniongyrchol drwy e-bostio **angharad.leefe@theatr.com** neu ffonio **07903 842554**.

Mae Theatr Cymru yn defnyddio'r model cymdeithasol o anabledd, gan gydnabod bod rhai pobl yn profi rhwystrau sy'n anablu. Byddwn yn cyfweld unrhyw ymgeisydd anabl sy'n bodloni meini prawf y swydd, ac rydym wedi ymrwymo i gefnogi unrhyw ofynion mynediad mewn cyfweliad, neu wedi hynny os penodir yr ymgeisydd.

Rhaid i bob ymgeisydd lenwi Ffurflen Monitro Cyfle Cyfartal.

# Mynediad / Cefnogaeth

Bydd yr holl offer technoleg gwybodaeth sy'n ofynnol ar gyfer y swydd yn cael ei ddarparu gan Theatr Cymru.

Mae ein swyddfeydd yng Nghaerfyrddin yn gwbl hygyrch ar gyfer mynediad i gadeiriau olwyn. Gall Theatr Cymru gefnogi deiliad y swydd gyda chais Mynediad i Waith er mwyn sicrhau cefnogaeth yn seiliedig ar eich anghenion. Gallai hyn gynnwys grant i helpu talu costau cymorth ymarferol yn y gweithle neu gartref, cymorth i deithio i'r gwaith ac yn ôl, gwasanaethau gweithiwr cymorth a/neu gymorth iechyd meddwl.

Am ragor o wybodaeth, ewch i **https://www.gov.uk/mynediad-at-waith**

Mae Theatr Cymru yn agored i drafod unrhyw gymorth/adnoddau ychwanegol y gallai fod eu hangen arnoch yn ystod y broses ymgeisio, neu ar ôl recriwtio i'r swydd, i'ch galluogi i wneud eich gwaith gorau. Ni fydd hyn yn effeithio ar ba mor gymwys ydych chi ar gyfer y swydd nac ar gryfder eich cais. I gael sgwrs anffurfiol am gymorth ychwanegol, cysylltwch ag Angharad Leefe drwy e-bostio **angharad.leefe@theatr.com** neu ffonio **07903 842554**.

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Rhif cofrestru cwmni / Company registration number: 4784488
Lluniau / Images: Mefus Photography

THEATR CYMRU